

Cyngor Cymuned Llanelian (319)

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 3, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Cyng. Aled Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones

Yn absennol: Hefina Williams, David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Neb

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cynnigwyd dau welliant –

4.3 eglurodd Dafydd Griffiths ei fod wedi cylchredeg y ddogfen i'r aelodau a gan nad oedd wedi cael cais i'w addasu, wedi ei gyflwyno fel ymateb y Cyngor.

9 – nododd Dafydd Griffiths mai ym mis Mawrth disgwylir yr ymateb i gais Wylfa Newydd. Gyda'r gwelliannau uchod, derbyniwyd y cofnodion.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 'Manhole' – nododd Glenys Jones bod CSYM wedi ail osod y clawr ac wedi rhoi ffens dros dro o'i amgylch i'w ddiogelu. Cytuno cadw golwg a chysylltu eto os oes angen.

5 Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Caeau Chwarae – cadarnhaodd Gordon Hayes ei fod mewn cysylltiad ag Anglesey Bollards ynglyn a thrin y cysgodfan ym Maes Llwyfo. Nodwyd bod y gwaith i dorri coed Maes Llwyfo wedi dechrau.

Cafwyd wybod gan Carol Whitaker bod cwynion am chwistrellau yng nghae chwarae Lon Tyddyn Waen, mae'r heddlu yn ymwybodol a dylid cysylltu a hwy yn syth os yn dod ar draws unrhywbeth tebyg eto.

5.2 Llithrfa – cafwyd grynodedb o gyllideb y cynllyn gan y clerch gan fod yr ad-daliadau erbyn hyn wedi eu talu yn ol i'r rheini oedd wedi dychwelyd y gorriad. Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn y flwyddyn newydd. CT

Cadarnhawyd yr arwyddion cwn ar gyfer y llithrfa, a cadarnhawyd hefyd bydd blwch dosbarthu bagiau baw ci yn cael ei osod ar ben y llithrfa ger y bin.

5.3 Mynwent – dim diweddariad.

5.4 Cyllid a Pholisi – dim diweddariad.

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – cytuno byddai'r pwyllgor yn cwrdd unwaith bydd yr arian wedi ei drosglwyddo i'r cyfrifon perthnasol. Nid oes ymateb gan y gymuned hyd yma am syniadau posib. CT

5.6 Pwyllgorau Allannol – dim.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

Dim ceisiadau newydd. Deallwyd bod cais y Bedol ger bron pwyllgor cynllunio CSYM wythnos yma a bod disgwyl iddo gael ei ohurio nes mis Ionawr.

6.2 Penderfyniadau –

Dim.

- 6.3 Gorfodaeth**
Dim diweddariad hyd yma.
- 6.4 Tai Fforddiadwy**
Daw ymateb gan CSYM ynglyn a sut oedd gweithredu y polisi, ond nid oedd yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd h.y. beth y'w mecanwaith i ddiogelu tai fforddiadwy. Cytuno gwahodd Mr Dewi Francis Jones pennaeth yr adran i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor. CT
- 7 Materion Ariannol**
- 7.1 Taliadau**
Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£337.94 HMRC (PAYE)
£253.70 Swyddfa Archwilio Cymru
£20.00 Poppy Appeal (torch)
£293.66 Carli Evans Thau (cyflog)
£475 Ad-daliadau Llithrfa (19 x £25)
- 7.2 Adroddiad Chwarterol –** dosbarthwyd copiau i bawb oedd yn bresennol. Aeth y clerwr drwy'r gwariant ac incwm fesul penawd gan esbonio unrhyw wahaniaethau gyferbyn a'r gyllideb.
- 7.3 Ceisiadau am Arian –** Dim.
- 7.4 Cytundeb Torri Gwair, Cynnal a Chadw –** roedd manyldeb y cytundebau wedi eu hafnion i'r aelodau er gwybodaeth cyn y cyfarfod. Nodwyd bod cynnal o amgylch y cysgodfannau bws a'r ardal o amgylch unrhyw feinciau a'r gof-golofn hefyd wedi eu cynnwys y tro hwn. Trafodwyd telerau talu a chytuno byddai talu ar gwblhau gwaith a chyflwyno anfoneb yn hytrach nac ar ddiwedd y tymor yn unig. Y clerwr i drefnu bod hysbyseb yn cael i anfon at y contractwyr presennol a'i arddangos yn y hysbysfwrdd, y wefan ac yn y papur lleol. Bydd unrhyw brisiau yn cael eu hagor yng nghyfarfod mis Ionawr. CT
- 8 Iechyd a Diogelwch**
Parcio ar Stryd y Capel yn parhau yn bryder. Aled Jones i drefnu cyfarfod gyda Alun Roberts CSYM yn y flwyddyn newydd i drafod opsiynau posib. AMJ
- 9 Wylfa Newydd**
Dim diweddariad.
- 10 Gohebiaeth**
Dim.
- 11 Rheolau Sefydlog**
Mae copi o'r rheolau sefydlog presennol gan pob aelod. Trafodwyd diweddaru ac addasu'r ddogfen cyfredol. Cytuno mabwysiadu rheolau sefydlog cwbl newydd wedi eu sefydlu ar fodel Un Llais Cymru. Y pwyllgor cyllid a pholisi i gwrdd cyn gynted a phosib i edrych ar y model mewn manylder ac addasu fel bo angen. CT
- 12 Unrhyw Fater Arall**
- 12.1** Nodwyd bod y gysgodfan bws ym Mhengorffwysfa angen sylw.
- 12.2** Hyfforddiant di-ffibriwleiddwyr – gofynnwyd a fyddai posib trefnu hyfforddiant cyn gynted a phosib. Y clerwr i drefnu dyddiad gyda Richard Jones a'i gydwethwyr. CT ROJ
- 12.3** Dwr ar y ffordd – Stryd y Capel – mae'r pibellau wedi eu blocio, mae'n broblem ers peth amser ac wedi codi ymwybyddiaeth CSYM nifer o weithiau erbyn hyn. Aled Jones i wneud ymholiadau pellach. Nodwyd hefyd bod dwr yn codi yng nghanol y lon ym mynedfa Stad Dublin. AMJ
- 12.4** Nodwyd bod y lon heibio Twrllachiad am yr Eglwys mewn cyflwr gwael, a hefyd y lon

heibio i Tros y Mynydd. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a CSYM yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

12.5 Diolchwyd i Gordon Hayes a Carol Whitaker am drefnu'r goeden Nadolig.

13 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Ionawr 14, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 20.10

Arwyddwyd
Elfyn Hughes, Cadeirydd

CET12/2019